

Dyddiad: 27 Mehefin 2001**Amser: 2.00-5.30****Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol****Teitl: AMRYWIADAU MEWN CYLLID****Cyflwyniad**

1. Bydd y Pwyllgor yn cofio bod y Cytundeb Partneriaeth yn cynnwys ymrwymiad i hawlio'r cyfleoedd sydd ar gael i ddefnyddio amrywiadau mewn cyllid a mesurau arbennig eraill a all elwa'n llawn ar fuddiannau'r statws rhanbarthol o ran Cymorth gan y Wladwriaeth a roddwyd i Orllewin Cymru a'r Cymoedd.

2. Dros y chwe mis diwethaf, rwyf i, a'm swyddogion, wedi cynnal nifer o weithgareddau er mwyn bwrw ymlaen â'r ymrwymiad hwn. Mae'r rhain yn cynnwys ymweliadau â'r Gyfarwyddiaeth Gystadleuaeth yn y Comisiwn Ewropeaidd ac ag awdurdodau treth a datblygu rhanbarthol Gweriniaeth Iwerddon. Cafwyd trafodaethau anffurfiol gyda'r Trysorlys hefyd.

3. Cyhoeddodd datganiad Cyllideb y Canghellor rai mentrau polisi newydd, sy'n dangos parodrwydd y Llywodraeth i ddefnyddio mesurau cyllidol er mwyn cyflawni amcanion polisi rhanbarthol. Roedd y rhain yn cynnwys:

- dileu treth stamp ar werthiant tir sy'n werth llai na £250,000 mewn ardaloedd o amddifadedd;
- ystyried cymhellion Treth Gorfforaeth i gwmnïau sy'n buddsoddi mewn Cwmnïau Adfywio Trefol;
- ymgynghori ar gynllun arfaethedig am Gredyd Treth Buddsoddi yn y Gymuned; a hefyd
- credyd treth gwerth 150% ar gyfer datblygu tir wedi'i halogi.

Adroddiad yr Ymgynghorwyr

4. Comisiynodd fy swyddogion adroddiad gan PriceWaterhouseCoopers i edrych ar y posibiliadau sydd i ddefnyddio amrywiadau mewn cyllid, er mwyn asesu pa fentrau a fyddai'n ateb y galw orau er mwyn datrys y problemau strwythurol penodol sy'n llethu perfformiad economaidd Cymru.

5. Mae'r adroddiad yn cynnwys argymhellion ar fesurau treth penodol, sydd i'w cyflwyno i'r Trysorlys.

6. Y mae hefyd yn cynnwys argymhellion o ran cymorth grant a chynorthwyon eraill sydd o fewn pwerau'r Cynulliad Cenedlaethol, i gefnogi ymdrechion pellach i fuddsoddi a hyfforddi yng Nghymru. Mae'r argymhellion penodol yn y meysydd hyn yn cynnwys:

- newid y modd y caiff gwerth am arian ei arfarnu ar gyfer grantiau Cymorth Rhanbarthol Dewisol bach;
- newid y modd y caiff Cymorth Rhanbarthol Dewisol ei ddefnyddio i gynorthwyo prosiectau a seilir ar wybodaeth gyda buddsoddiadau cyfalaf bach;
- newid y rheolau ar gyfer y rhaglenni SMART Cymru sy'n cynorthwyo ymchwil a datblygiad, i'w gwneud yn haws i gwmnïau bach gael gafael arnynt;
- rhesymoli cynlluniau cynorthwyo busnesau bach a chanolig eu maint a darparu rhestr ohonynt;
- sefydlu cronfa buddsoddi mewn hyfforddiant i gwmnïau; a
- defnyddio pwerau eiddo'r WDA yn fwy amlwg.

Rwyf wedi gofyn i'r Ymgynghorwyr roi cyflwyniad ar eu hadroddiad i'r Pwyllgor.

Camau sydd ar y gweill

7. Mae'r argymhellion hyn yn cael eu dilyn. Bydd y rheini sy'n ymwneud â Chymorth Rhanbarthol Dewisol a SMART Cymru yn destunau papurau i'r Pwyllgor yn nes ymlaen eleni. Bydd y Grp Gorchwyl a Gorffen a sefydlais ynghynt eleni i ystyried cymorth i fentrau, yn ystyried argymhellion ar resymoli cymorth i fusnesau bach a chanolig eu maint. Rwyf wedi gofyn i'r WDA am ei farn ar yr argymhellion sy'n ymwneud â'i bwerau eiddo. Cyfrifoldeb fy nghydweithiwr, y Gweinidog dros Ddysgu Gydol Oes, yw'r argymhellion sy'n ymwneud â chymhellion hyfforddi, ac rwyf wedi gofyn am ei barn hi ar argymhellion PriceWaterhouseCoopers.

8. O ran y mesurau treth, argymhellodd yr adroddiad y dylid bwrw ymlaen â'r rhain o fewn cyd-destun creu ardaloedd cyfle economaidd. Gallai'r rhain fod yn ardaloedd â phroblemau economaidd mawr, neu'n ardaloedd lle gellid ysgogi clystyrau. Roedd un eithriad, sef y dylid bwrw ati â chymhelliant treth ymchwil a datblygu cyffredinol y Trysorlys yn yr holl ardal Amcan Un. Mae hyn yn amlwg yn bosibl o dan reolau Cymorth y Wladwriaeth yr UE. Byddwn yn ymateb i ymgynghoriad y Trysorlys eto, yn annog ymateb positif er mwyn cau'r diffyg gwariant Ymchwil a Datblygu yng Nghymru.

9. Y mesurau treth penodol a argymhellwyd ar gyfer ardaloedd cyfle economaidd oedd:

- gwella cymhelliant treth Ymchwil a Datblygu cyffredinol y Trysorlys (gweler uchod);
- lwfansau cyfalaf o 100% ar adeiladau;
- rhyddhad Trethi Busnes (cynllun cyffredinol sy'n cael ei ystyried ar gyfer deddfwriaeth sylfaenol);

- eithrio rhag Treth Stamp (cytunwyd ar hyn, ac mae'r ardaloedd y bydd y cynllun yn berthnasol ynddynt yn cael eu hystyried ar hyn o bryd);
- rhyddhad TAW ar adeiladau;
- credyd treth dechrau busnes;
- cymhelliant treth y gyflogres, un ai i ostwng costau llafur neu fel cymhelliant ar gyfer hyfforddi.

10. Bydd y cynigion hynny nad ydynt yn cael eu datblygu mewn rhyw ffordd neu'i gilydd yn dod yn destun trafod gyda'r Trysorlys dros y misoedd sydd i ddod.

Goblygiadau ariannol

11. Efallai fod gan rai o'r argymhellion hyn oblygiadau ariannol i'r Trysorlys, ac eraill i'r Cynulliad Cenedlaethol. Ystyrir y goblygiadau ariannol ar gyfer pob un o'r argymhellion penodol yn fanwl yng nghyd-destun cylch y gyllideb sydd i ddod.

Cydymffurfio

12. Bydd yr argymhellion ar gyfer gweithredu gan y Cynulliad yn dibynnu ar wahanol ddeddfwriaeth. Mewn egwyddor, dylai Deddf Awdurdod Datblygu Cymru, y Ddeddf Cyflogaeth a Hyfforddiant, y Ddeddf Datblygu Diwydiannol a'r Ddeddf Gwyddoniaeth a Thechnoleg fod yn ddigon eang i ganiatáu cyflawni pob un o'r gweithgareddau hyn. Caiff y manylion eu paratoi ar gyfer pob un argymhelliad unigol.